Elidyr
Communities Trust

# Cynllun strategol
# 2023-28





# Elidyr Communities Trust

**Rydyn ni'n ddarparwr gwasanaethau preswyl arbenigol yn y sector elusennol i bobl ag amrywiaeth eang o anableddau dysgu.**

Rydyn ni wedi ein lleoli yn Sir Gaerfyrddin yng nghanol De-orllewin Cymru, gyda'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau'n cael eu darparu yn ardal wledig hardd Rhandir-mwyn. Rydyn ni hefyd yn darparu gofal i breswylwyr Tŷ Victoria, sef cartref gofal cofrestredig ym mhentref Llangadog. Mae Towy Valley Care, sef ein his-gwmni dan berchnogaeth lwyr, hefyd wedi'i leoli yn Llangadog, ac mae'n darparu gofal cartref i bobl sy'n byw'n annibynnol yn y pentref a'r ardal gyfagos.

Gydag adroddiadau arolygu olynol ar ofal ac addysg yn cynnwys sylwadau ar ansawdd ein darpariaeth, ein harweinyddiaeth gref ac ymroddiad ein staff a'n gwirfoddolwyr, caiff yr elusen ei hystyried, yn briodol ddigon, yn lle gwych i fyw a dysgu ynddo.

Mae ein cymuned yn seiliedig ar yr egwyddor bod gan bob preswylydd a dysgwr hawl i gael gofal ac addysg o'r ansawdd gorau. Mae'r egwyddor hon wrth wraidd ein cenhadaeth i ddarparu gofal ac addysg o'r safon uchaf posibl i'n preswylwyr a'n dysgwyr – bob amser ac ym mhobman.

Wrth i ni edrych ymlaen at ddathlu ein Hanner Canmlwyddiant ym mis Mehefin 2025, rydyn ni'n gobeithio adeiladu ar y pethau rhyfeddol rydyn ni wedi'u cyflawni fel elusen dros y 50 mlynedd diwethaf.

Rydyn ni'n dal yn gadarn yn ein haddewid i beidio byth â chyfaddawdu ar ansawdd, ac yn benderfynol yn ein huchelgais i gyrraedd mwy o bobl mewn mwy o leoedd. Drwy wneud hynny, bydd mwy o unigolion, teuluoedd a chymunedau yn cael budd o waith gwych ein helusen. Felly, ein bwriad yw datblygu enw da'r elusen ymhellach, sicrhau llwyfan cyllido hyblyg a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a datblygu gwasanaethau newydd a gaiff eu darparu i'r un safon uchel ag a gaiff ein preswylwyr a'n dysgwyr heddiw.

# Ffocws strategol

**Mae ein hamcanion strategol yn canolbwyntio ar:**

- **Ansawdd:** Safonau'r gofal a'r addysg a ddarparwn
- **Tîm:** Ein rhwydwaith o gyllidwyr, partneriaid, staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr
- **Preswylwyr a dysgwyr:** Y bobl rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw ac yn eu cefnogi
- **Codi arian:** Faint o incwm rydyn ni'n ei gynhyrchu i gefnogi ein gwaith
- **Llinell waelod:** Y gwarged gweithredol rydyn ni'n ei gynhyrchu bob blwyddyn



# Amcanion strategol

**1** Ein hamcan cyntaf yw parhau i wneud yr hyn a wnawn yn dda. Os gwnawn hynny dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn parhau i fod yn lle gwych i fyw a dysgu.

**2** Ein hail amcan – sy'n canolbwyntio ar wneud Elidyr Communities Trust yn lle gwych i weithio yw creu cyfleoedd gwirioneddol i gymryd rhan a gwneud cynnydd, a datblygu rhwydwaith o gymorth ar gyfer yr holl waith gwych rydyn ni'n ei wneud fel elusen.

**3** Ein trydydd amcan yw cynyddu nifer y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw bob blwyddyn: gan sicrhau bod mwy o leoedd ar gael i fwy o breswylwyr a dysgwyr; datblygu gwasanaethau newydd fel gofal seibiant; ehangu ein gwaith mewn meysydd newydd; a chodi ein proffil ar-lein.

**4** Ein pedwerydd amcan, sy'n adeiladu ar ein henw da fel lle gwych i fuddsoddi ynddo, yw cynyddu faint o incwm y gallwn ei sicrhau bob blwyddyn er mwyn i ni allu datblygu ein gallu i arloesi, ariannu prosiectau newydd ac ehangu ein heffaith.

**5** Mae ein pumed amcan yn ymwneud â'n llinell waelod ariannol oherwydd mae cyfrifoldeb arnom i ddiogelu'r elusen at y dyfodol a sicrhau bod ein holl waith sy'n newid bywydau yn gynaliadwy yn y tymor hir.


Coca-Cola

# Sylfeini ar gyfer y dyfodol

Diolch i gefnogaeth ddiwyro ein cefnogwyr, rydyn ni wedi cyflwyno strategaeth codi arian ac ystadau uchelgeisiol sydd â ffocws deublyg, ac mae wedi cyflawni'r canlynol:

- Dau gartref preswyl newydd sy'n darparu modelau gofal enghreifftiol
- Campfa bwrpasol sy'n llawn cyfarpar
- Canolfan addysg arbennig o'r radd flaenaf
- Cyfres o adeiladau crefft wedi'u haddasu'n arbennig
- Rhaglen dreigl o welliannau i'r seilwaith

Mae pob un o'r datblygiadau hyn wedi ein galluogi i wella safon y gofal a'r addysg a ddarparwn i'n preswylwyr a'n dysgwyr yn barhaus, yn ogystal â sicrhau bod ganddynt le diogel ac ysgogol i fyw a dysgu ynddo.

Wrth i'n darpariaeth ehangu er mwyn diwallu anghenion mwy o bobl, mae ein refeniw blynyddol wedi cynyddu 30 y cant – o £4.1m i £5.5m. Fel elusen sy'n tyfu, byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyfan cadarn rydyn ni wedi'i sefydlu dros y pum mlynedd diwethaf.



# Ein sbardunau gwerth

Mae tri sbardun gwerth allweddol yn sail i'n strategaeth dwf:

1. Gweithio gyda mwy o bobl
2. Cyrraedd mwy o leoedd
3. Datblygu model cyllido mwy hyblyg

## 1. Mwy o bobl

Hoffem i fwy o unigolion, teuluoedd a chymunedau gael budd o waith gwych ein helusen. Felly, dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ceisio datblygu'r canlynol ymhellach:

- Ein cymuned fywiog o breswylwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr
- Cysylltiadau busnes gyda mwy fyth o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr
- Ein rhwydwaith hanfodol o roddwyr a chefnogwyr
- Cysylltiadau cryf â sefydliadau o'r un anian
- Ein tîm ymroddedig, amrywiol ac arbenigol o arweinwyr, staff a gwirfoddolwyr



## 2. Mwy o leoedd

Rydyn ni’n frwd dros sicrhau bod ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl i’r bobl y mae eu hangen arnynt. Felly, mae ein strategaeth dwf yn cynnwys:

- Gwneud y defnydd gorau posibl o’n holl safleoedd a manteisio i’r eithaf ar eu potensial i dyfu
- Datblygu gwasanaethau newydd e.e. gofal seibiant
- Datblygu a chyflwyno gwasanaethau ar hyd coridor yr M4 a’r A48
- Creu cyfleoedd newydd i breswylwyr, dysgwyr, rhieni a pherthnasau, yn ogystal â chyllidwyr, rhoddwyr a chefnogwyr, gymryd rhan yn ein gwaith
- Archwilio ffyrdd newydd y gall technoleg ddigidol ein helpu i ehangu

## 3. Cyllido mwy hyblyg

Rydyn ni’n canolbwyntio ar ddatblygu model cyllido hyblyg ac amrywiol ar gyfer ein helusen. Felly, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau’n ehangu mewn ffordd gynaliadwy ac yn gallu tyfu yn unol â’r anghenion:

- Defnyddio methodolegau cynllunio busnes cadarn i ddatblygu a chyflwyno ein gwasanaethau
- Cysoni ein cynlluniau ehangu â chyfleoedd cyllido perthnasol
- Hyrwyddo effaith gynaliadwy ein gwaith




# Y ffordd ymlaen

Bydd ein hagenda flaengar ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef y gallu i dyfu, gwerthadwyedd a chynaliadwyedd.

**Y gallu i dyfu**

Rydyn ni'n canolbwyntio ar dyfu ein helusen mewn ffordd hydrin a chydgysylltiedig.

Felly, byddwn yn:

- Sicrhau bod ehangu mewn un ardal ddaearyddol yn creu'r potensial i'r elusen ehangu mewn ardal arall
- Cyd-greu gwasanaethau newydd y gellir eu cyflwyno ar raddfa fwy
- Defnyddio technoleg ddigidol i gysylltu â buddiolwyr, rhanddeiliaid a chefnogwyr posibl a datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n preswylwyr a'n dysgwyr

**Gwerthadwyedd**

Rydyn ni hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu achosion dros gymorth sy'n sail i'n holl strategaethau ac ymgyrchoedd codi arian. Bydd yr achosion dros gymorth hefyd yn fodd i leisiau'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw gael eu clywed mewn perthynas â cheisiadau am gyllid, ymgyrchoedd a phenderfyniadau cyllido a all effeithio arnynt.







# Ein gwaddol

**Cynaliadwyedd**

Er mwyn diogelu ein helusen yn y tymor hir, byddwn yn:

- Cysoni ein cynlluniau ar gyfer ehangu â chapasiti a galluogrwydd ein sefydliad
- Cadw, datblygu a recriwtio'r arweinwyr a'r ymarferwyr gorau yn ein sector
- Hyrwyddo ein brand fel cyflogwr er mwyn i ni ddod yn fwy adnabyddus byth fel lle gwych i weithio ynddo
- Adeiladu ar ein henw da fel sefydliad sy'n darparu gofal o ansawdd da

P'un a ydych chi'n breswylydd, yn ddysgwr, yn rhiant, yn gyllidwr, yn aelod o staff neu'n wirfoddolwr, rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi wrth i ni roi ein cynllun strategol ar waith a dod ynghyd i ddathlu ein llwyddiannau dros y pum mlynedd nesaf.

Elidyr

Communities Trust

**Elidyr Communities Trust**

Rhandirmwyn, Llandovery SA20 0NL | www.elidyrct.ac.uk | Rhif Cofrestru'r Elusen: 502742 | Rhif Cwmni: 1215997